

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

20 Mai 2020

PWNC

Eitem 5: CYFRIFON 2019/2020 - ALLDRO REFENIW

PENDERFYNIAD

Nodwyd a derbyniwyd y Cyfrif Incwm a Gwariant Reveniw am 2019/20 fel y nodir yn Atodiad 1, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant a gyflwynir er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol" ar ffurf adroddiad alldro.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mynegwyd fod yr adroddiad ar gyfer adrodd ar y sefyllfa terfynol o dan-wariant net yn erbyn y gyllideb, yn bennaf oherwydd tanwariant ar weithwyr ynghyd â'r gyllideb Broceru.

Nodwyd fod newid o (£217,253) i'r hyn adroddwyd yn chwarter 3, sef amcangyfrif gorwariant o £27,635, gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

20 Mai 2020

PWNC

Eitem 6: YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I COVID-19 : TORIADAU I'R GRANTIAU RHANBARTHOL

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Angen diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor am y sefyllfa ynghylch y grantiau rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

20 Mai 2020

PWNC

Eitem 7: CYMWYSTERAU

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad a cytunwyd i drefnu cyfarfod gyda CBAC i drafod y mater ymhellach.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Roedd angen i'r Cyd-Bwyllgor ystyried goblygiadau penderfyniad y Gweinidog i gau ysgolion a'r penderfyniad dilynol i beidio cynnal cyfres arholiadau 2020 ar gyfer dyfarnu graddau TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol eraill; a hefyd ystyried goblygiadau ar gyfer arholiadau haf 2021.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

20 Mai 2020

PWNC

Eitem 8:PONTIO YN ÔL I'R YSGOL

PENDERFYNIAD

Penderfynwyd i gymeradwyo dull gweithredu rhanbarthol, gyda GwE, awdurodau lleol ac ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth, ar gyfer y cam nesaf o addasu addysg yng Nghymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog i gau ysgolion o ganlyniad i Covid-19, mynegwyd fod creu dull gweithredu rhanbarthol yn caniatáu i Awdurdodau Lleol, GwE ac ysgolion i baratoi ac ymateb yn gyflym pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo ysgolion i ailagor i ragor o ddisgyblion.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.
